



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 1 Medi 2020 am 6.00yh
trwy linc fideo ar y wê

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 1 September 2020 at 6.00pm
through video link on the web

Presennol/Present—**Y Cyngorwyr/**Councillors Clive Davies (**yn y gadair/**in the chair), Shan Williams, John Adams-Lewis, Graham Evans, Catrin Miles, Sian Maehrlein, Morvenna Richards, Steffan Morgan, Debra Griffiths, Trystan Phillips, Richard Jones, Llinos Haf Jones (**cyfieithydd/**translator), Mr Dave Parkinson (*Tivy-Side*) and Mrs Eleri Maskell (**Clerc/**Clerk).

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol / The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer y cyngorwyr i gyfarfod cyntaf y tymor newydd. Anfonodd y Maer a'r cyngorwyr eu dymuniadau gorau at eu cyd-gynghorydd Wyn Jones sy'n anhwylyd ac yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

The Mayor welcomed the councillors to the first meeting of the new term. The Mayor and councillors forwarded their best wishes to their fellow councillor Wyn Jones who is unwell and currently receiving hospital treatment.

Dymunodd y Cyng. John Adams-Lewis dalu teyrnged i Mrs Sandra Williams, cyn-faeres Tref Aberteifi, a wasanaethodd am nifer o flynyddoedd ochr yn ochr â'i gŵr, y diweddar Mr Neville Williams, a fu hefyd yn Faer y Dref. Cydymdeimlwyd â'r teulu yn eu colled ddiweddar.

Cllr John Adams-Lewis paid tribute to Mrs Sandra Williams, a past mayor who served Cardigan Town Council for a number of years alongside her late husband, Mr Neville Williams, who also served as Town Mayor. The council's sympathy was extended to the family in their loss.

2. Ymddiheuriadau / Apologies.

Y Cyng. / Cllrs Elaine Evans, Wyn Jones, Yvonne O'Neil.

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams Lewis	<i>Materion Cynllunio/</i> Planning matters
Y Cyng. / Cllr Catrin Miles	<i>Materion Cynllunio/</i> Planning matters

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 4 Awst.

Confirmation of Minutes of 4 August Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng Shan Williams ac eiliwyd gan y Cyng Steffan Morgan bod cofnodion cyfarfod 4 Awst yn gywir.

Cllr Shan Williams proposed that the 4 August council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Steffan Morgan.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud 1636 pwynt 8(a): Biliau i'w talu – Mae ffurflen hawlio ar gyfer ad-dalu costau a achoswyd oherwydd pandemig Cofid-19 ar gael gan CSC. Bydd y Clerc yn cyflwyno hawliadau ar ran y Cyngor.

Page 1636 point 8(a): Bills to be paid – A claim form for reimbursement of costs incurred due to the Covid-19 pandemic has been made available by the CCC. The Clerk will submit claims on behalf of the council.

Tudalen 1642 pwynt 12(f): Meinciau ar gyfer canol y dref: Dywedodd y Cyng. John Adams-Lewis na fyddai aelodau Capel Tebernacl yn hapus i gael meinciau wedi eu gosod y tu allan i fur y capel. Dywedodd y Maer fod y syniad wedi'i ddiddymu.

Cllr John Adams-Lewis stated that the members of Tabernacl Chapel would not be happy to have benches located outside the chapel wall; the Mayor stated that the idea had been revoked.

6. Cynllunio / Planning:

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A200622	Glebelands Market Garden, Heol Llandudoch, Aberteifi	<i>Newid amod 8 y caniatâd cynllunio A190346 (uchder y clawdd).</i> Variation of condition 8 of planning permission A190346 (height of hedge)	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.
A200621	Glebelands Market Garden, Heol Llandudoch, Aberteifi	<i>Dileu amod 9 (tirlunio) caniatâd cynllunio A160478.</i> Removal of condition 9 (landscaping) of planning permission A160478	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.

7. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/9/20	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Medi/September).</i> <i>Band Lydan (Medi) / Broadband (September)</i>	A9 A20	D/D 4928	£250.00 (0.00) £20.00 (0.00)
1/9/20	Eleri Maskell: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Awst/August)</i>	A5	4929	£1,119.53 (0.00)
1/9/20	<i>Bachan Deche / Handyperson (Awst/August)</i>	A19	4930	£734.40 (122.40)
31/7/20	M & E Pearce Ltd	C6	4931	£49.42 (8.24)
31/7/20	CCF – Miracle Gro	C1	4932	£12.48 (2.00)
18/8/20	Cardibanners – Covid printed jackets	D14	4933	£42.00 (0.00)
19/8/20	Zoom – Webinar fee, one month	D14	4934	£38.40 (6.40)
28/8/20	Mark Toft – <i>Gwaith ar y coed ym Mharc Chwarae Brenin Siôr 5ed / Work carried out on trees at King George Vth Playing Field.</i>	B3	4935	£480.00 (80.00)
28/8/20	Llinos Jones – <i>Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translating service</i>	A18	4936	£60.00 (0.00)
1/9/20	John Morris – <i>Cyflenwi compost a phlannu blodau'r dre.</i> Supply compost and plant the town flowers.	C1	4937	£1,668.00 (278.00)
1/9/20	Catrin Miles – <i>Ffioedd Land Registry charges</i>	A22	4938	£84.00 (0.00)

Cynigiodd y Cyng. Debra Griffiths bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Steffan Morgan.

Cllr Debra Griffiths proposed that the listed bills be paid; this was seconded by Cllr Steffan Morgan.

Derbyniadau/Receipts:

9/7/2020 Lloyds Bank: *Llog / Interest* £2.01

(b) **Archwiliad mewnol o gyfrifon 2020-21 i'w gynnal gan y Cyngh. Shan Williams a Richard Jones ym mis Hydref.**

Paper trail of 2020-21 accounts to be conducted by Cllrs Shan Williams and Richard Jones in October.

8. Adroddiad y Maer

a) **Gohebiaeth barhaus â swyddogion Pwll Nofio Aberteifi – grant ar gyfer dichonoldeb;**

b) **Mae'r cyngor yn dal i aros am ymateb oddi wrth ddinasyddion Dingle yn Iwerddon cyn parhau â threfniadau'r gefeillio;**

c) **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed – Penodwyd cyflenwr gyda'r gwaith yn cychwyn yn yr Hydref; penderfyniad pwyllgor grant CSC heb ei dderbyn ar hyn o bryd. Cysylltwyd â busnes â hoffai wirfoddoli i helpu paentio'r offer sy'n weddill yn y maes.**

- d) Mae enillwyr y gystadleuaeth wedi eu hysbysu. Telir i elusennau a ddewiswyd o Gronfa'r Maer;
- e) Mae tenant newydd "cyfle y siop wag" yn gwneud yn dda ac mae o fudd i'r dref;
- f) Trafodwyd gyda'r Cyng. Richard Jones i dynnu'r goleuadau Nadolig a'r baneri i lawr o ganol y dref er mwyn eu harchwilio a'u trwsio; disgwylir am dywydd addas;
- g) Problem y colomennod: mae'r ohebiaeth yn parhau â pherchnogion yr adeiladau;
- h) Cyfarfod â rhanddeiliaid ynghylch datblygiadau "Wales and West Housing Association" i'w gynnal ym mis Medi;
- i) Addasiadau canol tref: mae dau arolwg pellach i'w cynnal gyda'r barn leol yn adlewyrchu canlyniadau arolwg Ceredigion;
- j) Mynychodd y Maer a'r Faeres ddiwrnod VJ yn y Senotaff (15 Awst). Agorwyd dwy siop newydd yn Aberteifi (8 Awst). Derbyniodd y clerc gyfarwyddyd i anfon cerdyn lwc dda i'r ddau berchennog;
- k) Cynorthwywyd gydag ymholiadau i barhau'r parth diogel Cofid-19 mewn wardiau Teifi a Rhyd-y-fuwch;
- l) Cyfarfod ag AS Ceredigion Ben Lake i drafod sefyllfa Cofid Aberteifi a gweithgaredd economaidd;
- m) Mae tref Aberteifi wedi cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru fel arweinydd ar gyfer dadansoddeg trefi marchnad. Mae BT hefyd wedi gwneud adroddiad sy'n tynnu sylw at gyflawniadau Aberteifi wrth ddarparu gwybodaeth i'w masnachwyr. Bydd Dirprwy Weinidog yr Economi Lee Waters yn mynychu digwyddiad lansio rhithwir ym mis Medi. Mae'n dda clywed bod Aberteifi yn gwneud yn dda ac yn cael y sylw cadarnhaol hwn;
- n) Llwyddodd 4CG i gael grant CAVO i gyflogi person i barhau'r ymgyrch siopa a dosbarthu presgripsiwn grŵp Corona Feirws Aberteifi nes y gellir dod o hyd i ddewis arall neu hyd i'r gronfa arian ddod i ben;
- o) Llythyr wedi'i anfon at Gyfarwyddwr Hywel Dda Ceredigion Peter Skitt ynghylch materion gyda'r Ganolfan Gofal Integredig; anfonwyd copi at y cynghorwyr; mae'r cyngor yn dal i aros am ymateb swyddogol;
- p) Cyfarfod â'r Cyng Catrin Miles, heddlu lleol a phwyllgor Cyfeillion Parc Sgrialu Aberteifi i drafod sut i fonitro troseddu yn y parc; mae prosesau effeithiol bellach ar waith;
- q) Trefnir cyfarfod PACT yn yr Hydref;
- r) Trosglwyddwyd gwybodaeth i'r cynghorwyr sir am bryderon ac ymholiadau a godwyd gan ddinasyddion Aberteifi.

Mayor's Report

- a) Correspondence is continuing with Cardigan Swimming Pool – grant for feasibility;
- b) The council is awaiting response from Dingle (Ireland) to progress the twinning project;
- c) King George Vth Playing Field – supplier has been appointed with work to commence in the autumn; the council is awaiting the CCC grant committee's decision. A local business has been approached to volunteer to help paint the remaining equipment;
- d) Competitions winners informed; payment to the chosen charities is being organised from the Mayor's Fund;
- e) The new tenant of the empty shop opportunity is doing well, and is benefiting the town;
- f) A discussion was held with Cllr Richard Jones on removing the lights and bunting from town centre to test and fix; an improvement in the weather is awaited;
- g) Pigeon problem: correspondence is ongoing with premises owners;
- h) A meeting with stakeholders regarding the Wales and West Housing Association development is to be held in September;
- i) Town Centre adjustment: a further two surveys are to be conducted; local opinion reflects results of the Ceredigion survey;
- j) The Mayor and Mayoress attended VJ day at the Cenotaph (15 August) and opened two new shops in Cardigan (8 August). The clerk received instructions to send a good luck card to both;
- k) The Mayor assisted with ongoing queries of COVID Safe Zone in Teifi and Rhyd-y-fuwch wards;
- l) A meeting was held with Ceredigion MP Ben Lake on the Cardigan COVID situation and economic activity.
- m) Cardigan has been used by the Welsh Government as a leader for market town analytics. BT has also done a report which highlights Cardigan's achievements in providing information to its traders. The Deputy Minister of Economy Lee Waters will attend a virtual launch event in September. It's encouraging to hear that Cardigan is doing well and receiving this positive attention;

- n) 4CG has been successful in obtaining a small CAVO grant to employ a person to allow the shopping and prescription support of the Cardigan Corona virus group to continue until an alternative can be found or until funds are depleted;
- o) A letter has been sent to Hywel Dda Health Board's Ceredigion director Peter Skitt regarding issues with the Integrated Health Centre; a copy was also sent to councillors. The council is waiting for an official reply and understand that good processes are now in place;
- p) A meeting was held with Cllr Catrin Miles, local police and Friends of Cardigan Skateboard committee to discuss how to monitor vandalism at the park. Strong processes are now in place;
- q) A PACT meeting is to be arranged in the autumn;
- r) Local county councillors were issued with concerns and queries raised by Cardigan citizens.

9. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng. Catrin Miles (Ward Teifi)

- a) **PARTHAU DIOGEL:** Wedi'r tair wythnos gyntaf, roedd arrolwg/holiadur gan CSC i ofyn ymateb trigolion, busnesau ag ymwelwyr i'r pedair tref yng Ngheredigion sydd yn rhan o'r cynllun. Roedd ymateb digon positif gyda 64% yn cytuno/cytuno'n gryf gyda'r trefniadau. Er hynny, mae gwaith ar droed i wella mynediad i'r anabl a'r henoed, e.e. rampiau rhwng yr heolydd a'r palmentydd. Mae'r Siambr Fasnach hefyd wedi creu holiadur. Edrychwn ymlaen at y canlyniadau maes o law. Ers y 3 Awst pan agorodd caffis, bwytai a thafarndai tu-fewn, ychydig iawn o broblemau sydd wedi bod. Fodd bynnag, trefnir cyfarfod cyn hir rhwng swyddog CSC a thrigolion Stryd y Cei, Mwldan Isaf a Greenfield Square i drafod effaith y drafnidiaeth sy'n cael ei ddargyfeirio trwy'r ardal honno. Diolch i bawb sydd wedi bod ynghlwm â threfniadau. Roedd y sesiynau "busking" yn arbennig o boblogaidd ac yn ychwanegu at naws anffurfiol y Stryd Fawr.
Er eglurdeb: mae CSC yn mynd am orchymyn Parthau Diogel am gyfnod o 18 mis ond nid yw hyn yn golygu cau'r strydoedd/dargyfeirio'r drafnidiaeth yn ddi-dor. Bydd yn rhoi cyfle i ail-osod y Parthau Diogel yn ôl y galw – wythnos cyn y Nadolig, falle, adeg y Pasg a gwyliau banc.
- b) **YSGOLION:** Llongyfarchiadau gwresog i holl ddisgyblion Ceredigion, ac i Ysgol Uwchradd Aberteifi yn arbennig, ar eu llwyddiannau TGAU, lefel AS ac A eto eleni er gwaethaf bob anhawster. Dymuniadau gorau i bawb sy'n mynd ymlaen i addysg bellach, i'r rheini sy'n symud i fyny i'r 6ed ac i bawb sy'n dechrau neu'n mynd nôl i'r Ysgol Gynradd neu'r Ysgol Uwchradd yn yr wythnos sydd i ddod.
- c) **GOLWG Y CASTELL:** Mae gwaith wedi cael ei wneud ar y cyrbau yn y stad, ond mae Mr Ian Stoker yn dal i aros am ddatrysiad i'r broblem mynediad sydd ganddo tu allan l'w dy. Rhaid darganfod naill ai cyfrifoldeb CSC neu Gymdeithas Dai Wales & West ydyw.
- d) **LLIFOGYDD:** Dydd Llun, 17 Awst roedd torgwmwl sydyn dros y dref ac fe ddiodefodd rhai busnesau a phreswylwyr yn ardal Stryd Morgan/Stryd y Santes Fair ddwr yn eu gerddi/adeiladau. Diolch i'r Cyngor Sir am glirio'r draeniau'n syth, i Ddwr Cymru am lanhau Stryd y Santes Fair, ac i bawb yn lleol wnaeth helpu clirio'r llanast.
- e) **PIGIAD Y FFLIW:** Atgoffwyd pob cyngorydd i annog pawb dros hanner cant i gael y brechiad.
- f) **TERFYN CYFLYMDER 20mya AR GYFER FFORDD LLANDUDOCH:** Derbyniwyd cais gan breswyllydd lleol i gael cefnogaeth i osod cyfyngiad cyflymder newydd o 20mya ar Ffordd Llandudoch. Unwaith y cofnodir ffeithiau a ffigurau cywir, cânt eu dwyn gerbron cyngor y dref.

Cllr Catrin Miles (Teifi Ward)

- a) **SAFE ZONES:** After the first three weeks, a CCC Questionnaire asked residents, businesses and visitors to the four Safe Zone towns for their opinion of arrangements. The response was quite positive, with 64% of responders "agreeing/agreeing strongly" with the idea. However, there is still work ongoing to improve access for disabled/elderly people. e.g. ramps from road to pavement. Cardigan Traders have also distributed a questionnaire. We look forward to seeing those responses in due course. Since the 3rd August, when cafes, restaurants and public-houses began serving customers indoors, there have been relatively few issues. However, a meeting has been arranged between CCC and local residents of Quay Street, Lower Mwldan and Greenfield Square, to look at the effect of diverted traffic on that area. Thanks again to everyone involved with arrangements. The busking sessions were particularly well-received and contributed to the relaxed atmosphere in town.
For information: CCC is seeking an 18-month order regarding Safe Zones but this does not mean a permanent road-closure or diversion of traffic. This is an opportunity to reintroduce

Safe Zones as and when required: perhaps a week prior to Christmas, Easter or other Bank Holidays.

- b) **SCHOOLS:** Heartfelt congratulations are forwarded to all Ceredigion pupils on their exam successes, but particularly Ysgol Uwchradd Aberteifi on their excellent GCSE, AS and A level results again this year, despite all the difficulties encountered. All the very best to those progressing to higher education, to pupils moving up to the 6th form and to all those starting/returning to Junior/Senior schools this week.
- c) **GOLWIG Y CASTELL:** Some work has recently been carried out on dropped curbs on the estate but Mr Ian Stoker still has access issues outside his home. Whether this is the responsibility of CCC or Wales & West Housing Association needs to be clarified.
- d) **FLOODS:** The sudden cloudburst on Monday, 17th August resulted in some water ingress to a few homes, businesses and gardens in Morgan Street/St Mary Street. Thanks to CCC for clearing the drains at once, Welsh Water for cleaning St Mary Street and to all those in the area who helped clear up the mess.
- e) **FLU INOCULATION:** Reminder to all councillors to encourage everybody over 50 to have the injection.
- f) **20mph SPEED LIMIT FOR ST DOGMAELS ROAD:** Request by a local resident to gain support to impose a new 20mph speed restriction on the St Dogmaels Road. Once a proposal of correct fact and figures is prepared, it will be brought to the town council's attention.

Y Cyng. John Adams-Lewis (Ward Mwldan)

- a) **Parthau Diogel:** Mae nifer o drigolion y dref a sawl busnes yn achwyn am y parth yn y dref, ac wedi dweud ni allant gario ymlaen os yw'r sefyllfa bresennol yn parhau, ac yn anffodus, efallai yn gorfod cau'r busnes. Mae'r sefyllfa bresennol yn gorfodi trigolion lleol i siopa yn yr archfarchnadoedd, gyda llawer yn archebu drwy'r we. Mae'r meysydd parcio yn llawn o ymwelwyr, felly nid oes manau parcio ar gael i'r bobl leol; derbyniwyd cwyn oddi wrth un person anabl oedd wedi ei orfodi i barcio ger Maes Mwldan a cherdded rhyw hanner milltir i'r dref – mae'r sefyllfa'n hollol annerbyniol. Mae'r parth yma yn anwybyddu bobl leol; yr unig rhai, meddai'r Cyng. Adams-Lewis, sy'n elwa o'r parth yma yw'r twristiaid, llawer iawn ohonynt heb barch am y gofynion angenrheidiol, e.e. cadw at bellter cymdeithasol. Mae arwain yr holl drafnidiaeth tuag at Stryd y Cei yn hollol annerbyniol ac yn beryglus gyda'r lorïau mawr yn gorfod tramwyo ar ei hyd.
Hefyd, dylai Stryd y Santes Faer fod ar agor er mwyn hwyluso'r parcio ym maes parcio 4CG sydd yn agos i ganol y dref. Gofynnwyd yn y cyfarfod diwethaf i agor y stryd ond ni chafwyd ymateb hyd hyn. Yr unig rhai sydd wedi elwa yw'r llefydd bwyta.
Ychwanegodd y Cyng. Adams-Lewis bod y bobl leol yn cael eu hanwybyddu – trigolion y dref fydd yn cefnogi busnesau'r dref drwy'r gaeaf wedi i'r ymwelwyr ddychwelyd adre. Gofidiodd fod yna berygl y bydd y dref yn colli ei chymeriad, sydd yn fater o gonsyrn.
Os oes yna ymgynghoriad pellach, dylai pawb, yn cynnwys busnesau a thrigolion y dref, gael mewnbwn. Mae hyn yn hollbwysig gan fod angen ailfeddwl yr holl gynllun.
- b) **Mae'n hyfryd gweld fod yr ysgolion wedi ailagor a gobeithio y bydd y feirws wedi lleihau erbyn y flwyddyn nesaf fel bod nifer fawr yn medru treulio eu gwyliau ar y cyfandir.**

Cllr John Adams-Lewis (Mwldan Ward)

- a) **Safe Zones:** Several town residents and businesses are complaining about the zone in the town and have stated that they cannot keep going if it persists, and unfortunately, perhaps their businesses will be forced to close. The current situation is forcing our residents to shop in the supermarkets, many of them now also ordering on-line. Car parks are full of visitors and, consequently, no parking is available close to the town; one disabled person had to park in the Maes Mwldan car park and walk the half mile back to town – the situation is totally unacceptable. This zoning has neglected local people, the only ones benefiting are the tourists, many of them ignoring social distancing measures. Redirecting traffic down Quay Street is unacceptable; the road is simply unsuitable for heavy vehicles and lorries. St Mary Street should be open to allow parking in the 4CG car park which is close to the town centre – this was requested in the last meeting; unfortunately, no response has been received. The only businesses benefiting the zones are the cafes. We have to support local people, citizens who will be supporting local business after all the visitors have returned home. There is a risk that the town will lose its character, which is of great concern. If there are further discussions to be had,

everybody including town businesses and residents should have an input. This is most important, as there is a need for a complete rethink.

- b) It is encouraging to see our schools reopen; hopefully the virus will be less prevalent next year enabling people to spend their holidays abroad.

Y Cyng Elaine Evans (Rhyd-y-Fuwch Ward)

- a) **Mae yna goeden dderw fawr sy'n peri pryder yng nghefn tŷ yn Brynhafod. Yn dilyn cyfatebiaeth e-bost, darganfuwyd nad CSC oedd perchnogion y tir ond ei fod yn eiddo i Gymdeithas Tai Caeredigion Cyf. Daeth y cwmni, heb rybudd, ychydig ddyddiau yn ddiweddarach a thocio'r goeden ar ochr Maeshenffordd ond nid ochr Bynhafod lle'r oedd yn hofran yn beryglus dros dŷ gwydr a sied yr achwynydd. Digwyddodd rhywfaint o ddifrod yn ystod y storm diweddar. Disgwylir y bydd y cwmni'n dychwelyd i gwblhau'r tocio angenrheidiol.**
- b) **Mae'r gerddoriaeth dros y bedestreiddio ar y stryd fawr wedi bod yn bleserus ac wedi cynhyrchu awyrgylch hyfryd yn y dref. Mae llawer o bobl wedi gwneud sylwadau ar ba mor ddiogel a digynnwrf fu'r cau.**
- c) **Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau yn Bro Teifi. Mae'r Cyng Evans wedi bod mewn trafodaethau gyda Tai Ceredigion Cyf.**
- d) **Mae'r Cyng Evans yn aros am ateb gan CSC ynghylch y maes parcio preifat, ac os gellir gwneud unrhyw beth i helpu deiliaid y drwydded.**
- e) **Mae'r Cyng Evans yn y broses o helpu rhywun â phlentyn anghenion arbennig sydd angen cymorth edrych am tŷ.**
- f) **Derbyniwyd gohebiaeth gan Mrs Linda Grace, o Ganolfan Blant Jig-so nawr eu bod wedi symud.**
- g) **Derbyniwyd mwy o gwynion am goed yn yr afon rhwng y ddwy bont. Mae lluniau o goeden ar y llwybr cerdded gyferbyn â maes parcio Gloster Row wedi cael eu hanfon ymlaen.**
- h) **Derbyniodd y Cyng Evans gŵyn yn ystod yr wythnos ddiwethaf am y bin ym maes parcio Gloster Row. Mae yna gartref gwyliau yn agos a phan fydd y preswylwyr yn gadael, mae eu biniau'n cael eu dympio wrth ochr y bin ac nid yn cael eu sortio i'w hailgylchu.**

Cllr Elaine Evans (Rhyd y Fuwch Ward)

- a) There is a large oak tree that is causing concern at the back of a property in Brynhafod. Following e-mail correspondence, it was discovered that the land was not CCC's but owned by Tai Ceredigion Cyf. Housing Association. The company came out without warning a few days later and trimmed the tree on the Maeshenffordd side but not the Brynhafod side where it was hovering dangerously over the complainant's greenhouse and shed. Some damage occurred during the storm. It is expected that the company will return to complete the necessary pruning.
- b) The music over the pedestrianisation in the High Street has been enjoyable and produced a lovely atmosphere in town. Many people have commented on how safe and calm the closure has been.
- c) Antisocial behaviour is continuing in Bro Teifi. Cllr Evans has been in negotiations with Tai Ceredigion Cyf.
- d) Cllr Evans is awaiting a reply from CCC regarding the private car park, and if anything can be done to help the permit holders.
- e) Cllr Evans is in the process of helping someone with a special needs child who needs assistance with housing.
- f) Correspondence has been received from Mrs Linda Grace, from the Jig-So Children's Centre now that they have moved.
- g) More complaints about the trees in the river between the two bridges have been received. Pictures of a tree on the footpath opposite the Gloster Row car park have been forwarded.
- h) Cllr Evans received a complaint during last week about the bin in the Gloster Row car park. There is a holiday home nearby and when the occupants leave, their bins are just dumped by the side of the bin and not sorted for recycling.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
118	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Mae Age Cymru yn ceisio barn pobl hŷn am ragofalon Covid 19 (Arolwg)/Age Cymru seeks older people's views of the Covid 19 precautions (survey).</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 05/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 05/08/2020.
119	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA</i> coronavirus update.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 11/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/08/2020.
120	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Cyngorau Cymuned a Thref, Canllaw Arfer Gorau, Ymgysylltu â'r Gymuned / Community and Town Councils, Best Practice Guide, Community Engagement.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 13/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/08/2020.
121	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA</i> coronavirus update.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 13/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/08/2020.
122	Gaynor Megicks – <i>Swyddog Ymgysylltu BIP Hywel Dda/ Engagement Officer Hywel Dda UHB: Arolwg Cynllunio Gaeaf 2020 / Winter Planning Survey 2020</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 13/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/08/2020.
123	Y Cyng/Clr Clive Davies: <i>Llythyr i Mr Peter Skitt, Cyfarwyddwr Ceredigion, BIP Hywel Dda – problemau gyda darparu gwasanaeth yng Nghanolfan Gofal Integredig Aberteifi / Letter to Mr Peter Skitt, Ceredigion Director, Hywel Dda – problem with service delivery at the Cardigan Integrated Care Centre.</i>	<i>Aros am ateb / Waiting for a reply.</i>
124	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA</i> coronavirus update.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 18/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 18/08/2020.
125	Antur Teifi: <i>Gwahoddiad i sesiwn cwestiynau / Invitation to question time.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 20/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/08/2020.
126	Nia Jones – <i>Rheolwr Corffraethol Gwasanaethau Democratiaid / Corporate Manager Democratic Services: Briffo Canolfannau Cymunedol / Community Venues Briefing.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 20/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/08/2020.
127	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA</i> coronavirus update.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 24/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 24/08/2020.
128	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA</i> coronavirus update.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 25/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 25/08/2020.
129	Craig Brookes – <i>Llythyr diolch / Thank you letter.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 27/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/08/2020.
130	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA</i> coronavirus update.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 27/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/08/2020.

131	Elin Jones AS/MS; Ben Lake AS/MP: <i>Cronfa Uwchraddio Band Eang / Broadband Upgrade Fund.</i>	<i>Mae'r Maer yn gweithio'n agos ar hyn ac yn gobeithio datblygu band eang cyflym lle mae'r problemau wedi'u hamlygu / Mayor is working closely on this and hoping to develop fast broadband where the problems have been highlighted.</i>
132	Mrs Kathleen Crook: <i>Llythyr o ganmoliaeth i Aberteifi / Letter of praise for Cardigan.</i>	<i>Clerc i ateb yn mynegi diolch y cyngor. Clerk to reply expressing the council's gratitude.</i>
133	DC Gareth Jordan – <i>Sgam Cardiau rhodd yn cael ei dargedu at Gynghorwyr / Gift card scam being targeted at Councillors.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 27/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/08/2020.
134	Anna Fossegaltier – <i>Fforymau ar-lein ymchwil cydlyniant cymunedol / Community cohesion research free online forums.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 28/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/08/2020.
135	Sarah L Bowen – <i>Prosiect ymchwil - effaith Brexit a pandemig Cofid-19 /</i> Research project – the impact of Brexit and the Covid-19 pandemic.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 28/08/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/08/2020.
136	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Arweiniad i gynghorau ar gynnal cyfarfodydd ar sail gorfforol / Guidance to councils on holding meetings on a physical basis.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 1/09/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 1/09/2020.
137	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA coronavirus update.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 1/09/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 1/09/2020.
138	Jane Roche / Ben Lake – <i>Cyfres o ebyst ynghylch parth diogel / Series of emails regarding safe zone.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 1/09/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 1/09/2020.
139	John Curran – <i>Colli defnydd astroturf a chais am gyllid ar gyfer lansiwr peli / Loss of use of the astroturf and request for funding for a ball launcher.</i>	<i>Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir am ddefnyddio'r cyfleustra astroturf / Clerk to request the County Council for the use of the astroturf facility.</i>
140	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Cylchlythyr datgarboneiddio Awst /</i> August Decarbonisation newsletter.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 1/09/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 1/09/2020.
141	<i>Theatr Byd Bychan / Small World Theatre: Cais am gymorth ariannol /</i> Application for financial support.	<i>Trafodir y cais yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.</i> The application will be discussed at the September Grants sub-committee.
142	Poppit Sands Surf Lifesaving Club: <i>Cais am gymorth ariannol /</i> Application for financial support.	<i>Trafodir y cais yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.</i> The application will be discussed at the September Grants sub-committee.
143	<i>Clwb Rhwyfo Aberteifi / Cardigan Rowing Club: Cais am gymorth ariannol /</i> Application for financial support.	<i>Trafodir y cais yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.</i> The application will be discussed at the September Grants sub-committee.

11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyman's Report and External Organisations.

a) Adroddiad y Bachan Deche: Handyman's Report:

i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area.**

Dim materion / No issues.

ii. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**

Dim materion / No issues.

- iii. **Maes Sgrialu /Skateboard Park**
Dim materion / No issues.

12. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

- a) **Y Maer / The Mayor:**
- i) **Dydd Sul y Cadoediad, 8 Tachwedd 2020. Clerc i ymchwilio a fydd y digwyddiad yn cymryd lle.**
Remembrance Sunday 8 November 2020: Clerk to research if the event will take place.
 - ii) **Ffair a Marchnad Stryd 10 Tachwedd 2020. Clerc i ymchwilio a fydd y digwyddiad yn cymryd lle.**
Fair and Street Market 10 November 2020: Clerk to research if the event will take place.
- b) **Y Clerc / Clerk:**
- i) **Mae'r clerc wedi anfon rhestr o'r asedau a restrwyd ac a brisiwyd gan Zurich Municipal ymlaen at Mr Jonathon Thomas, cyfarwyddwr y Castell, er mwyn iddo gynnwys yr asedau priodol yn y ddogfen.**
The clerk has forwarded the relevant list of council assets as valued by Zurich Municipal to Mr Jonathon Thomas, the Castle Director.
 - ii) **Gosodwyd y dogfennau "Rhybudd o ddyddiad a benodwyd" a "Hawliau'r Etholwr" ar hysbysfwrdd cyngor y dref, drws y swyddfa a'r gwefan ddydd Llun, 10 Awst 2020 fel y nodir o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.**
The documents "Notice of date appointed" and the "Elector's rights" were placed on the town council notice board, office door and website on Monday, 10 August 2020 as specified under the Public Audit (Wales) Act 2004.
 - iii) **Dyddiadau i'w trefnu: Cyfarfod Sul y Cadoediad: cadarnhawyd ar 12 Hydref. Cyfarfod Blynyddol Elusen Cae Chwarae Brenin Siôr V: cadarnhawyd ar 7 Hydref.**
Dates to be arranged: Pre-Remembrance Meeting: confirmed on 12 October.
King George 5th Playing Field Charity Trustee AGM: confirmed on 7 October.
- c) **Y Cyng/Cllr Morvenna Richards**
- i) **Cynnig: "Mae bywydau du'n bwysig" / "Black lives matter" motion: Cynnig yn cael ei gynnal gan bleidlais fwyafrifol. Clerc i gysylltu â Ben Lake i holi pwynt 3 y cynnig.**
Motion carried by a majority vote. Clerk to contact Ben Lake to query point 3 of the motion
 - ii) **Mynediad i'r anabl i Stryd Priordy a'r Banc Bwyd: mae yna rampiau ychwanegol ar waith yn y dref.**
Disabled access to Priory Street and the Food Bank: additional ramps in place in town.
- d) **Y Cyng/Cllr Sian Maerhlein**
- i) **Croesi cyhoeddus, Heol Bath House: Arwyddion newydd yn nodi system un ffordd bellach ar waith.**
Public crossing, Bath House Road: New signage indicating one-way system now in place.
- e) **Y Cyng/Cllr Richard Jones**
- i) **Cais i logi system PA gan Cariad PA i barhau'r gerddoriaeth fyw yn y dref. Cytunodd y cynghorwyr i geisio cost llogi a chael trwydded i barhau â'r gerddoriaeth gan y Cyngor Sir.**
Request to hire PA system from Cariad PA to continue live music in town. Councillors agreed to seek the cost of hire and to obtain a licence to continue the music from the County Council
- f) **Y Cyng/Cllr John Adams-Lewis**
- i) **Mae amgueddfa Cardi Bach yn dymuno adleoli model o hen orsaf rheilffordd Aberteifi. Cytunodd y cynghorwyr y dylai'r Cyng. Adams-Lewis edrych i mewn i gyflwr y model, unrhyw gostau a safle newydd ar gyfer arddangos yr hen orsaf.**
The Cardi Bach museum wish to relocate a model of the old Cardigan Railway station. Councillors agreed that Cllr Adams-Lewis should look into the condition of the model, relevant costs and a new site for the display of the old station.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.45yh.
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.45pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date